

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Cynllun Atal Clefyd Cardiofasgwlaidd i Gymru: Dull 'ABCD Plws'

Medi 2025

Mae 'ABCD Plws' yn cyfeirio at ffactorau risg Clefyd Cardiofasgwlaidd: Ffibriliad Atriaidd (**A**trial Fibrillation - problemau gyda rhythm y galon), pwysedd gwaed uchel (**B**lood pressure - gorbwysedd), **C**olesterol uchel (High Cholesterol - hyperlipidaemia), a **D**iabetes; yn ogystal ag ymddygiadau iechyd fel ysmygu a deiet.

# Rhageiriau



**Dr Jonathon Goodfellow**
Arweinydd Clinigol Cenedlaethol, Rhwydwaith Clefyd Cardiofasgwlaidd Cymru

GIG CYMRU NHS WALES | Perfformiad a Gwella Performance and Improvement



**Yr Athro Jim McManus**
Cyfarwyddwr Cenedlaethol Iechyd a Llesiant

Mae Cymru yn wynebu her iechyd sylweddol, sef baich cynyddol clefyd cardiofasgwlaidd, sy'n effeithio'n arbennig ar y cymunedau mwyaf difreintiedig ac yn arwain at anghydraddoldebau iechyd.

Mae angen canolbwyntio ar waith atal ar frys, gan dargedu'r poblogaethau mwyaf difreintiedig a'r rhai sydd fwyaf mewn perygl o gael clefyd cardiofasgwlaidd, er mwyn gwella ansawdd bywyd a lleihau baich clefyd cardiofasgwlaidd ar ein GIG. Rwy'n croesawu'r Cynllun Atal Clefyd Cardiofasgwlaidd i Gymru i fynd i'r afael â'r her hon.

Daw rhywfaint o'r dystiolaeth gryfaf dros atal o ymyriadau sy'n adnabod pobl sydd mewn perygl uchel o gael clefyd cardiofasgwlaidd ac mae'n eu cefnogi trwy roi meddyginiaeth a chyngor yn seiliedig ar risg.

Mae'r cynllun hwn yn arddangos ein huchelgais ar gyfer atal clefyd cardiofasgwlaidd yng Nghymru. Mae partneriaid ledled Cymru bellach yn gweithio i nodi, blaenoriaethu a gweithredu ymyriadau allweddol, a fydd yn ein helpu i gyrraedd ein nod o leihau marwolaethau ac anabledd sy'n gysylltiedig â chlefyd cardiofasgwlaidd, ac anghydraddoldebau mewn canlyniadau iechyd.

# Pam mae angen i ni atal Clefyd Cardiofasgwlaidd?

## Beth yw Clefyd Cardiofasgwlaidd?

Mae Clefyd Cardiofasgwlaidd yn cyfeirio at yr ystod o gyflyrau sy'n effeithio ar y galon a'r pibellau gwaed. Gall hyn gynnwys canlyniadau difrifol sy'n gallu bygwth bywyd fel trawiadau ar y galon a strôc. Mae hefyd yn costio £770 miliwn i GIG Cymru bob blwyddyn.



**MAE CLEFYD CARDIOFASGWLAIDD YN GYFRIFOL AM 27% O FARWOLAETHAU**

## Cyffredinrwydd a Rhagamcanion Clefyd Cardiofasgwlaidd yng Nghymru

Mae cyfraddau marwolaethau oherwydd clefyd cardiofasgwlaidd bron wedi haneru yn ystod y degawdau diwethaf. Fodd bynnag, mae hyn yn newid, ac rydym yn gweld y cynnydd parhaus cyntaf mewn marwolaethau oherwydd clefyd cardiofasgwlaidd ers o leiaf genhedlaeth. Cymru sy'n profi'r gyfradd uchaf o blith pedair gwlad y DU.

Er 2009, mae methiant y galon yng Nghymru wedi cynyddu 49% a rhagwelir y bydd yn cynyddu 46% yn ystod y degawd nesaf.



**CYNNYDD O 46%**

## Clefyd cardiofasgwlaidd yw un o'r cyfranwyr mwyaf at anghydraddoldebau iechyd

Mae pobl sy'n byw yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru yn fwy tebygol o brofi digwyddiad sy'n gysylltiedig â chlefyd cardiofasgwlaidd fel trawiad ar y galon neu strôc, sy'n debygol o fod yn fwy difrifol, gan arwain at dderbyniad i'r ysbyty a marwolaeth.

## Ffactorau Risg Clefyd Cardiofasgwlaidd

Mae prif achosion clefyd cardiofasgwlaidd yn cynnwys:
Ffibriliad atrïaidd (**A**trial fibrillation - rhythm calon annormal)
Pwysedd gwaed (**B**lood pressure - gorbwysedd)
**C**olesterol (hyper lipidemia) **D**iabetes (a chyn-ddiabetes)
**PLWS** Mae ymddygiadau allweddol fel ysmygu, deiet, anweithgarwch corfforol ac yfed alcohol, ochr yn ochr â phenderfynyddion iechyd ehangach, fel llesiant ariannol, hefyd yn cynyddu'r risg o ddatblygu clefyd cardiofasgwlaidd.

# Sut allwn ni atal clefyd cardiofasgwlaidd?

## Mae'n bosibl atal hyd at 80% o farwolaethau cynamserol o ganlyniad i glefyd cardiofasgwlaidd.

Gellir atal clefyd cardiofasgwlaidd i raddau helaeth trwy fabwysiadu ymddygiadau iach, er enghraifft rhoi'r gorau i ysmygu, lleihau faint o alcohol sy'n cael ei yfed, cynnal deiet iach ac ymarfer corff yn rheolaidd.


## Mae'r canllawiau'n glir ynghylch adnabod a rheoli ffactorau risg clefyd cardiofasgwlaidd.

Mae Prif Swyddogion Meddygol ledled y DU yn eiriol dros atal eilaidd parhaus mewn perthynas â chlefyd cardiofasgwlaidd. Bydd nodi ffactorau risg yn gynnar, cynnig cyngor yn seiliedig ar risg a rhoi presgripsiwn meddyginiaeth briodol yn lleihau'r siawns o ddatblygu cyflyrau cardiofasgwlaidd a allai newid bywyd.

## Beth yw barn pobl Cymru?

Wrth siarad â phobl yng Nghymru am glefyd cardiofasgwlaidd, tynnwyd sylw at y ffaith mai'r ffactorau risg clinigol lleiaf hysbys yw ffibriliad atrïaidd a diabetes.

Yn achos y bobl a oedd eisoes wedi profi un neu fwy o ffactorau risg ABCD, dywedodd 46% ohonynt eu bod yn monitro eu hiechyd eu hunain a dywedodd 85% eu bod eisiau cymryd camau pellach i wella eu cyflwr.




**46%**
**YN MONITRO EU HIECHYD EU HUNAIN**

**85%**
**EISIAU GWEITHREDU I WELLA EU CYFLWR**

# Faint o wahaniaeth allwn ni ei wneud?

## Enghraifft o'r adnodd 'Size of the Prize' ar gyfer un ffactor risg clefyd cardiofasgwlaidd.

**Mae Size of the Prize yn offeryn modelu sy'n seiliedig ar ganran amcangyfrifedig o bobl sydd â diagnosis o orbwysedd sy'n cael ei reoli. Mae'n dangos y gall cefnogi pobl i reoli hyd yn oed un ffactor risg, fel pwysedd gwaed atal cannoedd o drawiadau ar y galon a strôc ledled Cymru.**




**Potential cardiovascular events prevented in 3 years**
(NHS and social care savings refer to the costs averted in the first year after the cardiovascular event)

| Ambition 1 | Ambition 2 | Ambition 3 | Ambition 4 |
|---|---|---|---|
| **102 heart attacks** | **229 heart attacks** | **324 heart attacks** | **419 heart attacks** |
| NHS savings £0.8m | NHS savings £1.7m | NHS savings £2.4m | NHS savings £3.1m |
| **152 strokes** | **341 strokes** | **483 strokes** | **626 strokes** |
| NHS savings £2.1m<br>Social care savings £1.4m | NHS savings £4.7m<br>Social care savings £3.2m | NHS savings £6.7m<br>Social care savings £4.6m | NHS savings £8.7m<br>Social care savings £6.0m |

INTO-ACTION.HEALTH

© Into-Action.Health

# Sut rydym ni'n cefnogi pobl i leihau eu risg o glefyd cardiofasgwlaidd? Dull 'ABCD Plws'.

## Cynllun Atal Clefyd Cardiofasgwlaidd i Gymru

Helpu pobl sydd mewn perygl o ddatblygu clefyd cardiofasgwlaidd i reoli eu risgiau iechyd

### Ein huchelgais yw:

**NODI** ffactorau risg 'ABCD Plws' mewn pobl sydd mewn perygl uchel o ddatblygu clefyd cardiofasgwlaidd


## ABCD

Ffibriliad atrïaidd (**A**trial fibrillation - rhythm calon annormal)

Pwysedd gwaed (**B**lood pressure - gorbwysedd)

**C**olesterol (hyper lipidemia)

**D**iabetes (a chyn-ddiabetes)




## PLWS

Ysmygu, deiet, anweithgarwch corfforol, ac yfed alcohol, (yn ogystal â ffactorau sy'n effeithio ar iechyd fel llesiant ariannol).

**TRIN** ffactorau risg ABCD a **CHEFNOGI** pobl i gynnal ymddygiadau iach mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw

# Cynllun Atal Clefyd Cardiofasgwlaidd i Gymru

## Sut rydym ni'n ymgorffori dull 'ABCD Plws'?




**Trwy ddefnyddio'r fframwaith Iechyd a Gofal sy'n Seiliedig ar Atal, mae'r fframwaith atal clefyd cardiofasgwlaidd yn nodi nodau ac amcanion strategol.**





**DEILLIANNAU**
**Ein nod yw cyflawni**

- Gostyngiad yn nigwyddedd a chyffredinrwydd marwolaethau a morbidrwydd o ganlyniad i glefyd cardiofasgwlaidd yng Nghymru, ac anghydraddoldebau mewn canlyniadau clefyd cardiofasgwlaidds




**Byddwn yn gwneud hyn drwy:**
- **ADNABOD 'Pwy'**
- **YMYRRYD 'Beth'**
- **GWEITHREDU 'Sut'**

- Mae angen inni ei gwneud yn bosib adnabod a rheoli pobl â ffactorau risg ABCD Plws trwy ddefnyddio dulliau teg sy'n seiliedig ar dystiolaeth, yn ogystal â gwella dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth pobl o'u risg ABCD Plws.
- Mae angen i ni gyflwyno'r dull ABCD Plws, i'r rhai sydd â ffactorau risg ABCD Plws
- Mae angen i ni gytuno ar y gweithgarwch sydd ei angen i gyflawni ABCD Plws ar raddfa fawr, gan osgoi amrywiad diangen.




**Y GWEITHLU**
**Byddwn yn ystyried y gefnogaeth sydd ei hangen ar y gweithlu i gyflwyno ABCD Plws**

- Mae angen inni ddatblygu capasiti, gwybodaeth a sgiliau hirdymor ar draws y gweithlu gofal sylfaenol a chymunedol ehangach, er mwyn cyflwyno ABCD Plws, i'r rhai sydd â ffactorau risg ABCD, neu sydd mewn perygl uchel o'u datblygu.




**GALLUOGWYR SYSTEMAU**
**Beth sydd angen i ni, fel y system ehangach, ei wneud i gefnogi dull ABCD Plws?**

- Mae angen i ni ddatblygu data cysylltiedig a systemau digidol i'w gwneud yn haws i adnabod pobl â ffactorau risg ABCD.
- Mae angen i ni roi'r offer i'r gweithlu gofal sylfaenol a chymunedol bennu lefel y risgiau a blaenoriaethu er mwyn rheoli pobl sydd â'r risg uchaf yn gyntaf.
- Gyda chyfranogiad y cyhoedd a chleifion mae angen inni gefnogi monitro dangosyddion iechyd y boblogaeth yn barhaus ar gyfer y ffactorau risg ABCD hynny, a chydweithio â rhanddeiliaid allweddol i ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth wrth i ddulliau newydd ddatblygu.

# Atal Clefyd Cardiofasgwlaidd ar Waith: Astudiaethau Achos

## Cyflwyno dull 'ABCD Plws' fel rhan o Ofal Diabetes

Mae'r cysylltiad agos rhwng risg clefyd cardiofasgwlaidd a diabetes yn cael ei adlewyrchu mewn naw proses gofal allweddol, sy'n helpu i leihau'r risg o gymhlethdodau i gleifion â diabetes math 2. Mae'r prosesau gofal yn sicrhau bod y bobl hynny'n cael eu profi a'u trin, er enghraifft am bwysedd gwaed uchel ac am ymddygiadau fel ysmygu.

## Ymgymryd â dull gwella ansawdd o atal clefyd cardiofasgwlaidd mewn pobl â phwysedd gwaed uchel

Y Prosiect Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol: Mae Atal Clefyd Cardiofasgwlaidd mewn Pobl â Phwysedd Gwaed Uchel yn annog practisiau meddygon teulu i ystyried eu dull o: wneud mwy o waith tuag at gynyddu nifer y cleifion nad ydynt ar y gofrestr pwysedd gwaed ar hyn o bryd; adolygu'r broses o alw cleifion yn ôl yn flynyddol a blaenoriaethu gyfredol; a gwella'r adolygiad blynyddol o bwysedd gwaed i gyflawni dull ABCD Plws.



# Atal Clefyd Cardiofasgwlaidd ar Waith: Astudiaethau Achos

## Lleihau anghydraddoldebau o ran clefyd cardiofasgwlaidd trwy roi ymyriadau wedi'u targedu ar waith yn lleol

Mae Rhaglen Atal WISE yn canolbwyntio ar adnabod unigolion sydd mewn perygl o ddatblygu clefyd cardiofasgwlaidd a'u helpu i leihau'r risg honno trwy feddyginiaeth a hyrwyddo ymddygiadau iach. Nod y rhaglen yw lleihau marwolaethau cynnar a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd drwy flaenoriaethu'r cymunedau mwyaf difreintiedig sy'n profi'r cyfraddau marwolaethau uchaf o ganlyniad i glefyd cardiofasgwlaidd.

## Datrysiadau digidol yn galluogi defnyddio data clefyd cardiofasgwlaidd mewn bywyd bob dydd

Mae CVDACTION yn rhaglen sydd wedi'i chynllunio i drosi data yn gamau gweithredu yn y byd go iawn. Ei nod yw helpu clinigwyr i adnabod cleifion risg uchel sy'n cael triniaeth is-optimaidd yn hawdd. Mae'r rhaglen yn blaenoriaethu ac yn trefnu cleifion i sicrhau niferoedd rhesymol, tra hefyd yn mynd i'r afael â chydafiechedd a thargedu anghydraddoldebau iechyd.



GIG CYMRU
NHS WALES

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales